

Y Comisiwn Elusennau Cynllun Iaith Gymraeg

A baratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cymeradwywyd gan Fwrdd y Comisiwn ar 23 Mawrth 2010 a Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg ar 25 Mawrth 2010



Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Fe gewch fwy o wybodaeth am y Comisiwn ynghyd ag amrywiaeth o ganllawiau i elusennau ar ein gwefan **www.charitycommission.gov.uk**, neu drwy gysylltu â'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol:

Ffôn: **0845 300 0218**

Typetalk: **0845 300 0219**

Gellir gweld neu lawrlwytho pob un o gyhoeddiadau'r Comisiwn y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad hwn ar ein gwefan.

Cynnwys

1. Rhagair	3
2. Cyflwyniad	3
2.1. Amdanom ni	3
3. Cynllunio a Darparu Gwasanaeth	6
3.1. Polisiâu a Mentrau Newydd	6
3.2. Darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg	7
3.2.1. Gwella'r gronfa ddata	7
3.2.2. Safonau Gwasanaeth yn Gyntaf y Comisiwn Elusennau	8
3.2.3. Targedau ar gyfer cyfieithu dogfennau	8
3.3. Deddfwriaeth	8
4. Gohebu yn Gymraeg	9
4.1. Gohebiaeth ysgrifenedig	9
4.1.1. Cyffredinol	9
4.1.2. Ceisiadau i Gofrestru	9
4.2. Gohebu dros y ffôn	10
4.3. Cyfarfodydd Cyhoeddus	11
4.4. Cyfarfodydd preifat gyda'r cyhoedd yng Nghymru	11
4.5. Gohebu dros y Rhyngrwyd	11
5. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn	12
5.1. Hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru	12
5.2. Gwefan y Comisiwn (www.comisiwnelusennau.gov.uk)	12
5.3. Copïau printiedig o ddeunyddiau'r Comisiwn	12
5.4. Newyddion y Comisiwn Elusennau - cylchlythyr y Comisiwn	12
5.5. Ffurflenni a deunyddiau esboniadol eraill	13
5.6. Hysbysiadau a datganiadau i'r wasg	13
5.7. Cynlluniau, Gorchmynion a hysbysiadau cyhoeddus	13
5.8. Hysbysebion recriwtio staff yng Nghymru	14
5.9. Hysbysebu a chyhoeddusrwydd	14

6. Gweithredu a monitro'r cynllun	14
6.1. Staffio	14
6.2. Hyfforddi staff presennol	15
6.3. Trefniadau gweinyddol ar gyfer gweithredu'r cynllun hwn	15
6.4. Monitro	16
6.5. Gwasanaethau a Ddarperir ar ran y Comisiwn gan Bartion eraill	17
6.7. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun	18
7. Dangosyddion Iaith Gymraeg ac Amserlen ar gyfer gweithredu	19
7.1. Tabl 1: Dangosyddion Iaith Gymraeg	19
7.2. Tabl 2: Amserlen ar gyfer gweithredu amcanion	20

1. Rhagair

Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Elusennau yw hwn, ac mae wedi cael ei baratoi yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rydym wedi cynhyrchu cynllun i ddangos ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg, a rhoi darlun clir i'n cwsmeriaid Cymraeg o'r gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl gennym. Drwy adolygu ein cynllun yn 2010, rydym yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r iaith Gymraeg.

Cafodd y cynllun blaenorol ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Ionawr 2006. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei lunio yn dilyn adolygiad yn 2009 a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 25 Mawrth 2010.

Wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Comisiwn Elusennau wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd y Comisiwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r cynllun hwn wedi cael cymeradwyaeth lawn Bwrdd y Comisiwn, ac mae'n amlinellu'r cynlluniau ar gyfer gweithredu'r egwyddor hon yn y tymor byr, canolig a hir. Mae'r rhain yn adeiladu ar sylfaen gadarn o gyrhaeddiad hyd yma yn ein gwaith gydag elusennau yng Nghymru.

2. Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn dangos sut y bydd y Comisiwn Elusennau yn gweithredu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Hefyd, ymrwymwn i gydweithio'n agos â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion sy'n ymwneud â Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Mae'r ddau wedi cytuno ar goncordat sy'n pennu sut y byddwn yn cydweithio yn y dyfodol.

2.1. Amdanom ni

Mae'r Comisiwn Elusennau fel Adran anweinidogol o'r Llywodraeth wedi'i gyfansoddi o dan Ddeddf Elusennau 2006 fel y sefydliad sy'n gyfrifol am reoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn cyflogi tua 507 o aelodau staff mewn 4 swyddfa yn Llundain, Lerpwl, Taunton a Chasnewydd.

Sefydlodd y Comisiwn swyddfa yng Nghymru yn Ebrill 2004 gyda 9 aelod staff. Mae'r tîm yma yn cydweithio'n agos â 3 swyddfa arall y Comisiwn wrth reoleiddio'r 9,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru. Mae Swyddfa Cymru wedi'i lleoli yn Nhŷ Clarence, Clarence Place, Casnewydd NP19 7AA.

Ymdrinnir â'r holl waith Cydymffurfio yn Lerpwl a Llundain a'r gwaith Cofrestru yn Taunton, er y gwneir hyn mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn swyddfa Cymru. Yn achos elusennau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr, uned arbenigol Lerpwl sy'n delio â'r holl waith achos. Bydd y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, sef man cyswllt cyntaf y Comisiwn ar gyfer y rhan fwyaf o'r galwadau ffôn, e-byst a llythyrau a dderbynnir, hefyd yn parhau i gael ei leoli yn Lerpwl, ynghyd â'r swyddogaethau postio a monitro ffurflenni blynyddol a chyfrifon.

Gweledigaeth

Elusennau'n gweithio wrth wraidd cymdeithas er budd cyhoeddus

Cenhadaeth

Y Comisiwn Elusennau yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer gweithgarwch elusennol ac mae'n

- sicrhau bod elusennau'n cydymffurfio â'r gyfraith;
- gwella atebolrwydd;
- annog effeithiolrwydd ac effaith;
- hyrwyddo budd y cyhoedd mewn elusennau;

er mwyn hybu ffydd a hyder y cyhoedd.

Mae ein cenhadaeth yn:

- Cydnabod ein bod yn gwarchod unplygrwydd elusennau.
- Dangos ein bod yn addysgu, yn galluogi ac yn gorfodi mewn perthynas â rhwymedigaethau'r gyfraith elusennol. Esboniwn ac eglurwn y fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i elusennau weithredu o'i fewn a chymerwn gamau unioni cymesur lle y bo angen i gael elusennau yn ôl ar y trywydd iawn.
- Creu corff blaengar, eang ei orwelion a rhagweithiol sy'n ychwanegu gwerth at elusennau, a'r cyhoedd, mewn ffordd arbenigol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Tynnu sylw at y rôl sydd gennym o ran hybu atebolrwydd a thryloywder elusennau trwy'r gofrestr gyhoeddus a thrwy gyhoeddi'r wybodaeth unigryw a gasglwn am elusennau.
- Pwysleisio hollbwysigrwydd ein hannibyniaeth ar y llywodraeth.
- Cadarnhau y bydd pob un o'r uchod yn cael ei gyflawni er mwyn hybu ffydd a hyder y cyhoedd mewn gweithgarwch elusennol.

Gwerthoedd

Bydd ein gwerthoedd newydd wrth wraidd popeth a wnawn ac yn sail i'n hymddygiad, fel sefydliad ac fel unigolion sy'n gweithio yn y Comisiwn.

Mae'r chwe gwerth fel a ganlyn:

Effeithiol

Gwnawn yr hyn rydym yn addo ei wneud a gwnawn y pethau sylfaenol yn iawn. Rydym yn canolbwyntio ar y canlyniad yn hytrach na'r broses. Mae ein gwaith wedi'i dargedu ac yn effeithlon ac yn darparu gwerth am arian. Gwnawn bethau'n dda ac rydym yn atebol i'n rhanddeiliaid.

Arbenigol

Mae persbectif unigryw gennym a stôr o wybodaeth ar y sector elusennol a'r gyfraith elusennau. Defnyddiwn yr arbenigedd hwn i ychwanegu gwerth at waith elusennau unigol a gwaith y sector elusennol cyfan.

Teg

Rydym yn trin pob rhanddeiliaid yn gyson a heb ragfarn. Mae unrhyw gamau a gymerwn yn gymesur, yn deg ac yn rhesymol. Rydym yn ymddwyn mewn ffordd agored, onest a thryloyw. Rydym yn ystyried, ac yn gwerthfawrogi, amrywiaeth.

Annibynnol

Mae'r Comisiwn, yn ôl y gyfraith, yn annibynnol ar ddylanwad neu reolaeth Weinidogol dros ei weithrediadau a'i benderfyniadau beunyddiol. Mae Deddf Elusennau 1993 yn datgan: "Wrth gyflawni ei swyddogaethau, ni fydd y Comisiwn yn ddarostyngedig i gyfeiriad neu reolaeth unrhyw Weinidog y Goron neu Adran arall o'r Llywodraeth."

Arloesol

Rydym yn barod i addasu a newid a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau. Rydym yn greadigol ac yn hyblyg yn y ffordd yr ymatebwn i'r materion a wynebwn.

Ymatebol

Rydym yn gwrandao ar anghenion ymddiriedolwyr a'u helusennau. Ymatebwn yn gyflym ac mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn galluogi. Gweithiwn mewn partneriaeth â sefydliadau a rhanddeiliaid eraill, gan feithrin cysylltiadau effeithiol.

I gefnogi'r gwerthoedd hyn, mae ein gwaith gydag elusennau yn rhannu'n bedwar prif faes gweithredu, sef:

- Cofrestru elusennau newydd a chadw cofrestr gyhoeddus. Mae ceisiadau i gofrestru elusennau Cymraeg, yn unol ag adran 3 o Ddeddf Elusennau 1993, yn cael eu cofrestru trwy ein swyddfa yn Taunton. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i elusennau ddarparu copïau o'u hymddiriedolaethau a gwybodaeth arall a geisir gan y Comisiwn at ddiben y cais a chynnal y gofrestr gyhoeddus.
- Darparu cydsyniadau cyfreithiol a chynghor ar reoleiddio i elusennau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a'u helpu i foderneiddio a delio â sialensiau newydd, megis uniadau a'r dirwasgiad. Ceisiwn gyrraedd y nifer fwyaf posibl o elusennau a chael yr effaith fwyaf posibl trwy weithio mewn partneriaeth â grwpiau mantell i hybu cydymffurfio â'r gyfraith a llywodraethu da. Gwnawn hyn drwy ddarparu peth hyfforddiant, sioeau symudol wedi'u targedu, arddangosfeydd a chymorthfeydd lleol.
- Ymchwilio i achosion o gamweinyddu a charmarfer. Mae timau sy'n gweithio ym mhob un o'r safleoedd yn gwerthuso pob achos o gamweinyddu a charmarfer. Os oes mater o bryder, gall yr achos gael ei gyfeirio ar gyfer ymchwiliad ffurfiol.
- Monitro'r Ffurflenni Blyneddol a chyfrifon a ddychwelir er mwyn cynnal cofrestr gywir. Swyddfa Lerpwl sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon.

I gefnogi ein gwaith mae ystod eang o ganllawiau ar gael, yn amrywio o grynodedd o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr i Becyn Cofrestru manwl. Mae bron pob un o'r rhain ar gael yn Gymraeg ac mae pob un ar gael yn rhad ac am ddim.

Nod y Comisiwn yw sicrhau, ymhen amser, fod pob un o'n canllawiau ar gael naill ai'n ddwyieithog neu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd staff a chontractwyr perthnasol yn cael canllawiau ysgrifenedig ar gynhyrchu dogfennau dwyieithog.

3. Cynllunio a Darparu Gwasanaeth

Mae'r Comisiwn yn awyddus i fabwysiadu cynllun iaith Gymraeg sy'n cynyddol ddatblygu a fydd yn:

- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- Dangos cefnogaeth i'r iaith Gymraeg trwy hybu ein gwasanaethau Cymraeg.
- Amlinellu trefniadau gweithredu clir.
- Sicrhau cynnydd yn ein gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae materion Cymraeg yn rhan o'n hagenda Cydraddoldeb. I ddangos ein hymrwymiad i blannu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth a wnawn, mae pawb yn y Comisiwn yn cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi ar gydraddoldeb, amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Er mwyn sicrhau bod materion Cymraeg yn cael eu hystyried fel thema drawsbynciol yn ein polisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Mae ein hymrwymiad i'r polisi hwn yn cael ei fonitro a'i atgyfnerthu gan Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd, sef Aelod o'r Bwrdd, John Wood ac mae'r grŵp Llywio Amrywiaeth yn arwain ac yn monitro ein gwaith ar Amrywiaeth.

3.1. Polisiâu a Mentrau Newydd

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiau a mentrau newydd pan gânt eu llunio, a bydd y polisiâu a'r mentrau newydd hyn yn:

1. hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer unrhyw gwsmer sy'n dymuno delio â ni trwy gyfrwng y Gymraeg;
2. symud y Comisiwn yn agosach at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb bob cyfle a gawn; ac
3. ystyried yn llawn yr egwyddorion a gorfforwyd yn y Cynllun, ac yn arbennig, gweithredu yn unol â'r Cynllun ac nid ei danseilio.

Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn:

1. ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun;
2. newid y cynllun dim ond gyda chytundeb Bwrdd y Comisiwn ymlaen llaw;
3. sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud â llunio polisiâu, cynllunio a chaffael yn ymwybodol o'r cynllun a chyfrifoldebau'r sefydliad o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg trwy gyfrwng;
 - seminarau a gweithdai ar gyfer staff allweddol;
 - hyfforddiant sefydlu i staff newydd;
 - erthygl yn ein bwletin staff; a
 - rhoi copi o'r cynllun ar y Fewnrwyd;
4. sicrhau bod y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn cael eu hystyried wrth weithredu polisiâu a mentrau newydd.

3.2. Darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

Ceisiwn ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'n cwsmeriaid. Mae'r un safon yn gymwys i'r gwasanaethau a ddarparwn yn Saesneg ac yn Gymraeg ym mhob un o'n pedair swyddfa.

Mae'r 9 aelod staff yn swyddfa Cymru y Comisiwn yng Nghasnewydd yn delio â'r mwyafrif o'r gwaith achos ar gyfer elusennau Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o'r llythyrau ac e-byst Cymraeg a dderbynnir yn y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol yn cael eu hanfon i Swyddfa Cymru. Mae'r aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn ymateb yn uniongyrchol yn Gymraeg, gan leihau'r angen am wasanaethau cyfieithu allanol. Gall staff sy'n siarad Cymraeg yn y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol gyfieithu'r llythyrau a'r e byst a dderbynnir hefyd ac ymateb i ymholiadau ffôn yn Gymraeg.

Mae cyfieithwyr proffesiynol yn gweithio dan contract i'r Comisiwn ac yn gallu cyfieithu gohebiaeth (ysgrifenedig ac electronig) o fewn amserlen sy'n golygu bod modd i ni ymateb i gwsmeriaid yn Gymraeg o fewn yr un targedau Gwasanaeth yn Gyntaf ag sy'n gymwys i bob un o'n cwsmeriaid eraill.

Gwaith achos yw gwaith craidd Swyddfa Cymru ac mae hyn yn cynnwys yr holl ystod o elusennau, o rai bach i rai mawr, a holl gymhlethdod yr achosion a ymdrinnir gan y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, yr Is-adran Gwaith Achos Arbenigol a'r Is-adran Elusennau Mawr mewn swyddfeydd eraill.

Yn ogystal â gwaith achos, mae Swyddfa Cymru yn:

- Cymryd rhan mewn digwyddiadau partneriaeth gyda'r nod o feithrin cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid, partneriaid ac elusennau yng Nghymru.
- Hybu gwasanaethau Cymraeg y Comisiwn trwy ddulliau gwahanol gan gynnwys darparu hyfforddiant yn Gymraeg.
- Ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Aelodau'r Cynulliad/Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau Cymreig (ACau/ASau).
- Annog elusennau Cymru i ffeilio cyfrifon a ffurflenni mewn pryd.
- Hybu presenoldeb y Comisiwn yng Nghymru a rôl y Comisiwn.

Nid yw Swyddfa Cymru yn prosesu cofrestradau elusennau Cymru neu'n cynnal achosion Cydymffurfio. Os yw'r achosion hyn yn cael sylw mewn swyddfeydd eraill mae pwyntiau cyswllt gyda Swyddfa Cymru ac ymgynghorir â'r rhain pan gyfyd materion sy'n gofyn am wybodaeth o'r sector yng Nghymru neu faterion lle mae goblygiadau ehangach i'r sector yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gofynion y cynllun hwn yn cael eu bodloni.

3.2.1. Gwella'r gronfa ddata

Mae'r Gronfa Ddata Elusennau yn cynnwys data a gyhoeddir ar Gofrestr y We a data heb ei gyhoeddi a ddefnyddir ar gyfer ein gwaith rheoleiddio. Fel rhan o'r Gronfa Ddata Elusennau gyfredol, gallwn gofnodi pa elusennau sydd wedi mynegi dewis iaith Cymraeg. Bydd yr wybodaeth hon ar gael i bob aelod staff er mwyn sicrhau bod elusennau'n derbyn yr holl wybodaeth statudol a ffurflenni yn Gymraeg lle y nodwyd bod yn well ganddynt eu derbyn yn Gymraeg.

Mae'r Gronfa Ddata Elusennau yn cynnig modd i ni fwydo gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd hyn yn parhau gyda'r fersiwn wedi'i ddiweddarau. Mae hyn yn cynnig modd i gwsmeriaid chwilio'r gofrestr yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan.

Nid ydym yn cyfieithu amcanion a gweithgareddau elusennau Saesneg i'r Gymraeg. Os yw data yn cael ei nodi yn Saesneg caiff ei ddangos yn Saesneg. Yn yr un modd, ni chaiff data a nodir yn Gymraeg ei gyfieithu i'r Saesneg. Hefyd rhown ddewis i elusennau nodi data'n ddwyieithog.

Disgwylir i brosiect a fydd yn cymryd lle'r gronfa ddata gyfredol gael ei gwblhau yng ngwanwyn/haf 2010. Bydd y gronfa ddata newydd hon yn ein galluogi i gynnal safonau cyfredol, cofnodi digwyddiadau allweddol yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl dewis iaith yr elusen. Byddwn yn parhau i ystyried gwelliannau i'n cronfa ddata a systemau cyfrifiadurol cyffredinol gan weithio tuag at weithredu canllawiau a safonau Technoleg Gwybodaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg bob cyfle a gawn.

3.2.2. Safonau Gwasanaeth yn Gyntaf y Comisiwn Elusennau

Ceisiwn ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'n cwsmeriaid. Mae'r un safonau ansawdd yn gymwys i'r gwasanaethau a ddarparwn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae ein targedau ar gyfer gohebiaeth fel a ganlyn:

- Byddwn yn ceisio rhoi ymateb llawn a chlir cyn pen pymtheg diwrnod gwaith o'i derbyn. Byddwn yn sicrhau bod ein hymateb yn gywir ac yn briodol. Mae'r safon wasanaeth hon yn gymwys i bob math o ohebiaeth gan gynnwys e-byst a ffacsys.
- Os na allwn roi ymateb llawn cyn pen pymtheg diwrnod, byddwn yn cysylltu â'r cwsmer ac yn rhoi'r rhesymau pam nad yw hyn yn bosibl gan nodi pryd y disgwyliwn fod mewn sefyllfa i roi ymateb llawn. Byddwn hefyd yn rhoi enw a rhif cyswllt y sawl sy'n delio â'r ymholiad i'r cwsmer.

Mae ein targedau o ran ymwelwyr yn cynnwys:

- Byddwn yn gweld cwsmeriaid cyn pen deg munud o'r amser a drefnwyd ar gyfer eu hapwyntiad (neu cyn pen deg munud o'r amser y maent yn cyrraedd os cawsant eu hoedi) gan y sawl y trefnwyd iddynt ei weld.
- Os nad oes apwyntiad byddwn yn sicrhau bod y cwsmer yn gallu siarad â rhywun cyn pen deg munud sy'n gallu delio â'i ymholiad. Os na all yr unigolyn hwnnw ddelio â'r cais yn llawn, bydd yn gwneud trefniadau i sicrhau bod yr ymholiad yn cael ei ystyried o fewn y safon gyhoeddedig ar gyfer gohebu â chwsmeriaid.

Byddwn yn monitro ein perfformiad yn erbyn y safon wasanaeth hon ac yn cyhoeddi'r canlyniadau.

3.2.3. Targedau ar gyfer cyfieithu dogfennau

Mae'r un safonau a thargedau yn gymwys i'n gwasanaeth, pa bynnag iaith a ddefnyddir gan ein cwsmeriaid. Os oes angen cyfieithu gohebiaeth hir neu gymhleth sy'n gofyn am ymateb, ein nod yw cwrdd â'n targedau gwasanaeth cwsmeriaid sef:

- cyfieithu ceisiadau wedi'u cwblhau i gofrestru elusennau cyn pen 15 diwrnod gwaith;
- ymateb i ohebiaeth gyffredinol cyn pen 15 diwrnod gwaith, ond efallai na fydd hyn yn bosibl bob tro, pa bynnag iaith a ddefnyddir. Fodd bynnag, os na allwn gwrdd â'r targedau hyn, bydd ymateb dros dro yn cael ei anfon yn esbonio'r sefyllfa gan nodi pryd y gellir disgwyl ymateb llawn.

3.3. Deddfwriaeth

Byddwn yn ystyried yn llawn anghenion defnyddwyr yr iaith Gymraeg mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yr ymgynghorir arni neu y byddwn efallai yn ei hyrwyddo.

Daeth Deddf Elusennau 2006 i rym yn Nhachwedd 2006. Yn unol ag ymrwymiad y Comisiwn o dan y Cynllun Iaith Gymraeg, cafodd anghenion defnyddwyr Cymraeg eu hystyried yn llawn yn y Ddeddf hon, sy'n ychwanegu darpariaethau newydd amrywiol at Ddeddf 1993.

4. Gohebu yn Gymraeg

4.1. Gohebiaeth ysgrifenedig

4.1.1. Cyffredinol

Byddwn yn parhau i groesawu gohebiaeth (gan gynnwys e-byst) gan y cyhoedd yng Nghymru naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd yr ymateb awtomatig 'allan o'r swyddfa' gan staff Swyddfa Cymru yn ddwyieithog. Bydd unrhyw bapur pennawd, e-byst, slipiau cyfarch ac ati a ddefnyddir wrth ohebu â chyfeiriadau yng Nghymru yn cynnwys datganiad sy'n nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fydd angen ymateb neu gydnabod gohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg, caiff ei anfon yn Gymraeg, ac os ydym wedi siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg, byddwn yn gohebu yn Gymraeg. Os gwyddom fod yn well gan gwsmeriaid ohebu yn Gymraeg, byddwn yn dechrau gohebu â nhw yn Gymraeg.

Byddwn yn pennu dewis iaith elusennau a'u cynrychiolwyr sy'n gweithredu yng Nghymru pan fydd ein perthynas â nhw yn cychwyn trwy'r pecyn cais i gofrestru, ond os nad ydynt wedi nodi dewis iaith, byddwn yn gohebu â nhw yn y naill iaith neu'r llall yn ôl yr hyn a gytunwyd gyda'r elusen.

Gofynnwyd i elusennau nodi eu dewis iaith ers sawl blwyddyn bellach trwy'r pecyn cais i gofrestru. Bydd elusennau sydd eisoes wedi cofrestru yn cael y dewis i ddiweddar eu dewis iaith yn ddiweddarach.

Pan fydd dewis iaith wedi cael ei fynegi a'i gofnodi ar ein cronfa ddata gan elusen sy'n gweithredu yng Nghymru, bydd ein hadrannau monitro a phostio yn defnyddio'r iaith honno. Bydd hyn yn sicrhau, lle y mynegwyd dewis iaith, fod pob ffurflen flynyddol, holiadur, taflen ac ati yn cael eu dosbarthu yn yr iaith (ieithoedd) priodol. Ni fyddwn yn anfon gohebiaeth ddwyieithog yn awtomatig i bob elusen sy'n gweithredu yng Nghymru, ond yn hytrach byddwn yn defnyddio'r iaith o'u dewis fel y nodwyd ar y cychwyn.

Os yw elusen, neu sefydliad arall, neu unigolyn yn gohebu â ni, heblaw mewn perthynas â chais i gofrestru fel elusen, byddwn yn cymryd mai eu dewis iaith yw'r iaith a ddefnyddiant pan fyddant yn cysylltu â ni, oni bai yr awgrymir fel arall yn yr hyn a ddywedant.

4.1.2. Ceisiadau i Gofrestru

Mae dyletswydd statudol gan y Comisiwn i sicrhau bod y Gofrestr Elusennau yn hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr. Felly, croesawn geisiadau i gofrestru yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu systemau cofrestru ar-lein ac yn symud i ffwrdd o ddefnyddio ffurflenni papur. Bydd elusennau Cymraeg a Saesneg yn gallu cofrestru eu helusennau'n electronig. Pan fydd cais i gofrestru yn cael ei dderbyn, gall siaradwyr Cymraeg yn Swyddfa Cymru dywys ceiswyr trwy'r broses gofrestru yn Gymraeg.

Bydd anghenion llawn cwsmeriaid Cymraeg yn cael eu hystyried pan ddaw technolegau newydd i'r amlwg. Wrth i dechnoleg newydd ddatblygu byddwn yn asesu'n drwyadl a yw'n rhesymol ac yn ymarferol i ddarparu gwasanaethau newydd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â chanllawiau a safonau TG Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Byddwn yn hybu'r defnydd o'r pecyn Cais i Gofrestru Cymraeg sydd ar gael ar-lein ac yn sicrhau bod cwsmeriaid Cymraeg yn ymwybodol y gall staff Cymraeg eu tywys trwy faterion cofrestru dros y ffôn, trwy:

- ein cysylltiadau ag elusennau Cymraeg fel rhan o'n gwaith achos;
- cyhoeddi datganiadau i'r wasg dwyieithog ar ein gwasanaethau Cymraeg;
- dosbarthu taflenni dwyieithog ar wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru; a
- sesiynau hyfforddi cyfrwng Cymraeg ar gyfer elusennau.

Ein nod yw cwblhau cofrestru o fewn ein targedau gwasanaeth cyhoeddus cyhoeddedig. I gefnogi hyn, rydym wedi cynhyrchu fersiwn Cymraeg o'n dogfennau llywodraethol enghreifftiol ac rydym hefyd wedi cytuno ar ddogfennau llywodraethol safonol yn y ddwy iaith gyda nifer o gyrff mantell, e.e. Cylch Meithrin.

Os nad oes fersiwn dwyieithog neu fersiwn Saesneg o'r ddogfen lywodraethol, gall y Comisiwn drefnu ei chyfieithu i'r Saesneg. Byddwn yn anfon y fersiwn wedi'i gyfieithu i'r ceisydd a'i wahodd i'w wirio er mwyn sicrhau ei fod yn gywir a rhoi gwybod i ni os oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

Os yw'r cais i gofrestru yn llwyddiannus, bydd y Gofrestr yn cynnwys y ddogfen lywodraethol Gymraeg a'r cyfieithiad Saesneg. Er y byddwn yn defnyddio'r cyfieithiad Saesneg ar gyfer cyngor cyffredinol, mewn unrhyw achos cyfreithiol, y ddogfen lywodraethol Gymraeg fydd drechaf.

Mae canllawiau mwy manwl ar y broses hon yn cael eu rhoi i geiswyr fel rhan o'r pecyn cofrestru, ar-lein ac ar bapur.

Os oes unrhyw fanylion cofrestredig yn Gymraeg (er enghraifft, manylion cyswllt, amcanion ac incwm blynyddol), maent ar gael i'r cyhoedd eu gweld, ac mae modd cael y manylion hyn trwy gysylltu â'n Canolfan Gyswllt. Mae'r Gofrestr Ar-lein yn cynnig modd i gwsmeriaid chwilio'r gofrestr yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog ar ein gwefan. Gellir bwydo data yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog ar y Gofrestr Ar-lein. Gall aelodau'r cyhoedd hefyd wneud apwyntiad i weld dogfennau Cymraeg ar ffeiliau ein Cofrestr Ganolog.

4.2. Gohebu dros y ffôn

Mae ein swyddfa wedi'i sefydlu yng Nghymru a bydd y rhan fwyaf o'r busnes sy'n gysylltiedig ag elusennau Cymru yn cael ei gyflawni trwy'r swyddfa honno. Mae dau aelod staff sy'n rhugl yn y Gymraeg yn gweithio yn Swyddfa Cymru. Gall cwsmeriaid sy'n cysylltu â ni ddewis siarad yn uniongyrchol dros y ffôn â'n staff yn Gymraeg.

Hefyd mae dau aelod staff sy'n rhugl yn y Gymraeg yn gweithio yng Nghanolfan Gyswllt y Comisiwn yn Lerpwl. Ymdrechwn i gynnal o leiaf dau aelod staff sy'n siarad Cymraeg yn Swyddfa Cymru a dau yn y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol.

Mae pob aelod staff y Comisiwn yn Swyddfa Cymru yn cyfarch yn ddwyieithog, ac mae cyfeirlyfr mewnol gennym o'r holl staff sy'n siarad Cymraeg y gellir cyfeirio galwadau iddynt. Rhoddir canllawiau i staff ar sut i ddelio â galwadau Cymraeg.

Os yw aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg ac nid yw'r staff perthnasol sy'n siarad Cymraeg ar gael, cynigir dychwelyd yr alwad o fewn cyfnod penodedig. Fodd bynnag, os yw'r ymholiad o natur arbenigol, ac nid oes unrhyw swyddogion priodol sy'n siarad Cymraeg, esbonnir y sefyllfa, a gwahoddir y galwr naill ai i:

- gyflwyno ei ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn gallu derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg; neu
- esbonio ei ymholiad yn llawn yn Saesneg er mwyn gallu derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg; neu
- barhau â'r galwad yn Saesneg.

4.3. Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mae'r Comisiwn yn cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru bob blwyddyn ac yn croesawu cyfraniadau i'r rhain yn Gymraeg. Maent yn amrywio o fentrau ar y cyd ag asiantaethau eraill wrth gyflwyno cynadleddau neu arddangosfeydd, i gyfarfodydd cyhoeddus ar raddfa lai mewn neuaddau pentref ac ati. Bydd ein hymagwedd at ddarparu gwasanaeth Gymraeg yn amrywio yn ôl natur, maint a lleoliad unrhyw gyfarfod cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru. Ym mhob achos byddwn yn holi ynglŷn â'r angen am wasanaeth cyfieithu fel man cychwyn. Byddwn yn gwahodd y rheiny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau yng Nghymru i ddweud a hoffent siarad yn Gymraeg, yn Saesneg neu gyfuniad o'r ddwy iaith.

Pan fyddwn yn cydweithredu i gyflwyno cynadleddau, arddangosfeydd ac ati byddwn yn gofyn am y canlynol:

- bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os oes angen;
- bod yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrydd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

4.4. Cyfarfodydd preifat gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Byddwn yn cwrdd ag ymddiriedolwyr elusen unigol yn aml iawn i drafod materion o bryder i'r ddwy ochr. Nid yw'r rhain yn gyfarfodydd cyhoeddus. Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cynnal cyfarfodydd preifat neu unigol â'r Comisiwn wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cynigir dewis iaith pan fydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu, ac os derbynnir cais i siarad Cymraeg, gwneir pob ymdrech posibl i sicrhau bod aelod staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol.

Ond os nad oes unrhyw swyddogion priodol sy'n siarad Cymraeg sy'n gallu delio ag ymholiad o'r natur hwnnw, gwahoddir y sawl sy'n mynychu naill ai i:

- anfon ei ymholiad ysgrifenedig atom yn Gymraeg er mwyn iddynt allu derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg; neu
- drafod y mater yn Saesneg.

Bydd ein targedau gwasanaeth yr un fath pa bynnag iaith a ddewisir.

4.5. Gohebu dros y Rhyngrwyd

Erbyn hyn y Rhyngrwyd yw un o'n prif ddulliau o ohebu â'n cwsmeriaid. Ein cyfeiriad rhyngrwyd yw www.comisiwnelusenau.gov.uk. ac mae'r wefan yn cynnwys eitemau megis cyhoeddiadau CC a chanllawiau, gwybodaeth gyffredinol a dogfennau ymgynghori. Gweler 5.2 isod i gael manylion am yr wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan.

Wrth i Dechnoleg Gwybodaeth chwarae rôl allweddol yn y gwasanaethau a'r wybodaeth a ddarparwn i'n cwsmeriaid, byddwn yn gweithio tuag at weithredu canllawiau a safonau TG Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn

5.1. Hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru

Bydd y Comisiwn yn parhau i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Mae ein logo Cymraeg yr un mor amlwg â'r amrywiadau Saesneg pan gaiff ei ddefnyddio ar arwyddion dwyieithog yn Swyddfa Cymru, ac ar ein papur ysgrifennu dwyieithog, ac fe'i defnyddir yn ein cyhoeddiadau Cymraeg. Byddwn yn parhau i hybu ein gwybodaeth ein hunain yn Gymraeg mewn arddangosfeydd, cynadleddau a chyfarfodydd eraill yng Nghymru.

5.2. Gwefan y Comisiwn (www.comisiwnelusennau.gov.uk)

Erbyn hyn y rhyngwyd yw'r brif ffordd y mae ein cynulleidfaoedd yn dewis cyrchu'r canllawiau a'r deunyddiau eraill a gyhoeddwn. Bydd hafan a phrif dudalennau ein gwefan yn parhau i fod yn ddwyieithog, gan gynnig y dewis i ddefnyddwyr newid rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw fan.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi fersiynau Cymraeg o'n canllawiau craidd a deunyddiau eraill sydd o ddiddordeb cyffredinol. Caiff adroddiadau mewnol a rhai cyhoeddiadau technegol neu arbenigol a ddarperir ar gyfer cynulleidfa gyfyngedig eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig, oni bai fod effaith arbennig ar Gymru. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn yr achosion hyn dim ond ar ôl ystyried yn ofalus natur y cyhoeddiad a'i gynulleidfa darged.

Bydd fersiynau Cymraeg newydd neu ddiwygiedig o ganllawiau craidd a deunyddiau eraill yn cael eu cynllunio a'u cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.

5.3. Copïau printiedig o ddeunyddiau'r Comisiwn

Mabwysiadwyd polisi yn 1996 i ddarparu copïau caled o'r holl gyhoeddiadau Cymraeg. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Comisiwn wedi gweld lleihad sylweddol a pharhaus yn y galw am ddeunyddiau printiedig. Rydym wedi newid ein prosesau cyhoeddi felly nid ydym yn argraffu ac yn storio copïau o ganllawiau newydd na ddisgwyllir derbyn mwy na sawl cant o geisiadau amdanynt y flwyddyn. Yn hytrach, defnyddiwn dechnoleg Argraffu ar Gais i argraffu copïau mewn ymateb i'r archebion a dderbynnir. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu strategaeth o gynhyrchu ein holl gyhoeddiadau ar-lein gan leihau cynhyrchu cyhoeddiadau printiedig.

Pan fyddwn yn cynhyrchu cyhoeddiadau mewn cydweithrediad â chyrrff eraill neu adrannau eraill o'r llywodraeth, byddwn yn dilyn telerau'r cynllun hwn er mwyn sicrhau bod testunau Cymraeg a Saesneg ar gael, lle y bo'n bosibl.

5.4. Newyddion y Comisiwn Elusennau - cylchlythyr y Comisiwn

Mae ein cylchlythyr a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn Newyddion y Comisiwn Elusennau yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan ac mewn print. Mae pob fersiwn yn egluro fod yr iaith arall ar gael.

Bydd y ddau fersiwn yn parhau i gael eu hanfon i'r elusennau hynny sydd wedi nodi Cymraeg fel eu dewis iaith ar eu Ffurflen Flynyddol, neu'r elusennau Cymraeg hynny sydd heb nodi eu dewis iaith eto. Byddwn yn parhau i gyhoeddi a dosbarthu'r fersiwn Cymraeg yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.

5.5. Ffurflenni a deunyddiau esboniadol eraill

Mae'r holl ffurflenni gorfodol ynghyd â'u nodiadau esboniadol ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac yr un mor hygyrch. Mae'r rhain yn cynnwys Ffurflenni Cais i Gofrestru, Ffurflenni Blynyddol, yn ogystal â pheccynnau cais ar gyfer awdurdod cyfreithiol. Mae maint a natur y ffurflenni hyn yn golygu nad yw'n ymarferol i gynhyrchu fersiynau dwyieithog, ond byddwn yn anfon y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg ar gais.

Bydd pob elusen sydd wedi dewis gohebu â ni yn Gymraeg yn derbyn hysbysiad yn Gymraeg sy'n nodi'r gwahanol ddewisiadau ar gyfer anfon yr wybodaeth ofynnol atom.

Mae'r gwasanaethau ar-lein a ddarparwn i elusennau gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol bob blwyddyn yn y Ffurflenni Blynyddol wrthi'n cael eu hadolygu. Mae'r Comisiwn yn ceisio sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'r un fath ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Byddwn yn parhau i wella a datblygu gwasanaethau ar-lein. Wrth i dechnolegau newydd gael eu cyflwyno, gan weithio tuag at ganllawiau a safonau TG Bwrdd yr Iaith Gymraeg, byddwn yn asesu a yw systemau yn fforddiadwy yn ôl yr hyn sy'n rhesymol ac yn ymarferol yn yr amgylchiadau.

Byddwn yn parhau i wella ein ffurflenni cyffredin gyda'r nod o sicrhau bod pob ffurflen ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan. Hefyd, mae'r Comisiwn yn ystyried sut i gynnig ffurflenni ar-lein eraill yn Gymraeg ac yn Saesneg. Er enghraifft, galluogi elusennau sy'n dymuno newid eu dogfennau llywodraethu i wneud hynny ar-lein.

5.6. Hysbysiadau a datganiadau i'r wasg

Cafodd y swydd Rheolwr Cyfathrebu yn Swyddfa Cymru ei chreu i godi proffil Swyddfa Cymru ymysg y cyhoedd yng Nghymru.

Bydd hysbysiadau i'r wasg sy'n rhoi manylion am ddigwyddiadau yng Nghymru neu sy'n hybu gweithgareddau a deunyddiau cyhoeddus sy'n benodol i Gymru yn cael eu rhoi i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd pob datganiad i'r wasg hyrwyddo a gyhoeddir gan Swyddfa Cymru y Comisiwn yn ddwyieithog. Y cyhoeddwy'r darlledwyr perthnasol fydd yn dewis pa iaith i'w defnyddio yn eu hadroddiadau. Bydd datganiadau i'r wasg sy'n delio â straeon newyddion ar gyfer papurau newydd a darlledwyr ar draws y DU yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig.

5.7. Cynlluniau, Gorchmynion a hysbysiadau cyhoeddus

Pan fydd angen hysbysiad cyhoeddus ffurfiol ar gyfer unrhyw Gynlluniau a Gorchmynion a wnawn ar gyfer elusennau (gan ddefnyddio ein pwerau o dan Ddeddf Elusennau 1993), gwneir hyn ar draul yr elusen. Yr ymddiriedolwyr sy'n penderfynu a ddylai hysbysiadau o'r fath fod yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Bydd hyn yn cael ei egluro yn y canllawiau a roddir iddynt.

Er bod y Cynlluniau a'r Gorchmynion gwreiddiol yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg am resymau cyfreithiol, os yw cwsmeriaid yn gofyn am gopiau o Gynlluniau a Gorchmynion sy'n ymwneud ag elusennau Cymraeg, cynigir dewis iddynt dderbyn fersiwn Cymraeg, Saesneg, neu'r ddau.

5.8. Hysbysebion recriwtio staff yng Nghymru

Pan fyddwn yn rhoi hysbysebion i recriwtio staff yn y cyfryngau Cymraeg, byddwn yn eu paratoi'n ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael lle cyfartal neu, pan fyddwn yn ceisio llenwi swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, fe'u cyhoeddir yn Gymraeg yn unig gyda nodyn esboniadol yn Saesneg. Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg a bydd y neges hon yn ymddangos ar hysbysebion recriwtio.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio asiantaeth recriwtio Gymraeg arbenigol pan fyddwn yn ceisio llenwi swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.

5.9. Hysbysebu a chyhoeddusrwydd

Bydd unrhyw ymgyrchoedd hysbysebu neu gyhoeddusrwydd sydd wedi'u cyfeirio'n benodol at y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y rhain yn cynnwys:

- unrhyw lenyddiaeth, fideos, deunyddiau clywedol ac ati sy'n ceisio hybu neu roi cyhoeddusrwydd i ddeddfwriaeth neu weithgareddau a gwasanaethau'r Comisiwn;
- unrhyw ddeunyddiau arddangos a gynhyrchir ar gyfer arddangosfeydd, seminarau ac ati;
- deunyddiau hysbysebu;
- deunyddiau postio uniongyrchol;
- deunyddiau ymchwil i'r farchnad megis arolygon cwsmeriaid.

6. Gweithredu a monitro'r cynllun

6.1. Staffio

Bydd y Comisiwn yn recriwtio ei holl staff trwy gystadleuaeth deg ac agored a bydd bob amser yn penodi'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd.

Byddwn yn rheoli ac yn strwythuro ein gweithlu i wneud y defnydd gorau o'r sgiliau iaith sydd gennym, yn datblygu'r sgiliau hynny, ac yn recriwtio ar gyfer sgiliau ychwanegol fel y bo angen.

Rydym wedi llwyddo i recriwtio 4 aelod staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae dau ohonynt yn gweithio yn Lerpwl (Comisiwn Elusennau Uniongyrchol) a dau yng Nghasnewydd. Ein targedau recriwtio fydd cynnal o leiaf dau aelod staff sy'n siarad Cymraeg yn Swyddfa Cymru a dau yn y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol.

Er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn gallu darparu ei wasanaethau yn Gymraeg i safon uchel, mae wedi mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i broses cynllunio adnoddau dynol. Mae'r strategaeth hon yn galluogi'r Comisiwn i gadw trosolwg o'i anghenion ac adnoddau sgiliau ieithyddol, a chydlynu hyfforddiant a gweithgareddau recriwtio er mwyn hwyluso amcanion y Cynllun.

Bydd y mesurau sy'n dilyn yn ffurfio rhan o'r Strategaeth honno.

Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad uchod, bydd y Comisiwn yn cynnal archwiliad o'i wasanaethau, ei ddarpariaethau a'i staff er mwyn adnabod yn wrthrychol:

- y sefyllfaoedd hynny lle y ceir cysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru a natur y cysylltiad hwnnw;
- sgiliau dwyieithog staff presennol ac i ba raddau yr hoffai'r staff ddysgu neu wella eu sgiliau.

Ar ôl cynnal a dadansoddi'r arolwg uchod, bydd y Comisiwn yn adnabod y swyddi hynny lle mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, neu nid yw'n un o'r sgiliau gofynnol. Caiff disgrifiadau swyddi eu llunio yn unol â hynny.

Bydd pob swydd newydd a phob swydd sy'n dod yn wag yn cael ei hystyried yn erbyn Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cynllun hwn. Drwy wneud hynny, bydd y Comisiwn yn ymwybodol o'r angen i achub ar bob cyfle i unioni unrhyw ddiffygion mewn sgiliau Cymraeg a fydd yn effeithio ar gyflwyno darpariaeth Gymraeg y Comisiwn Elusennau.

Pan fydd angen i ni lenwi swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yr hysbyseb recriwtio yn Gymraeg yn unig, gyda nodyn esboniadol yn Saesneg. Fel arall, bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer Swyddfa Cymru yn cael eu paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn parhau i adolygu pob swydd sydd i'w llenwi gan ymgeiswyr sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg hanfodol neu Gymraeg dymunol o fewn y Comisiwn yn sgil cyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg 'Recriwtio a'r Iaith Gymraeg'..

6.2. Hyfforddi staff presennol

Bydd staff di-Gymraeg presennol yn Swyddfa Cymru yn cael eu hannog i ddysgu'r iaith, a dylai staff sy'n siarad ychydig o Gymraeg ond heb fod yn rhugl gael cynnig hyfforddiant pellach, gyda chymorth y Comisiwn. Bydd hyfforddiant Cymraeg yn canolbwyntio ar swyddi lle mae'r staff yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

6.3. Trefniadau gweinyddol ar gyfer gweithredu'r cynllun hwn

Mae'r cynllun hwn a'r amserlen ar gyfer ei weithredu wedi cael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Comisiynwyr. Bydd monitro'r cynllun hwn yn cael ei fesur fel rhan o'n prosesau monitro arferol. Yr Uned Gyhoeddiadau sy'n gyfrifol am fonitro ein contractau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig ar hyn o bryd.

Bydd staff allweddol yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau o dan y cynllun trwy gyfrwng nifer o sesiynau ymwybyddiaeth. Bydd yr aelodau staff hyn hefyd yn cael copi o'r cynllun terfynol. Bydd pob Pennaeth Is-adran yn ymwybodol y dylai staff newydd dderbyn hyfforddiant yn y polisi a'r cynllun.

Bydd yr holl staff yn cael gwybod am gynnwys y cynllun a'u cyfrifoldebau o ran cyfrannu at ei weithredu mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg. Gwneir hyn trwy gyfrwng hyfforddiant addas i'r rhai y bydd gofyn iddynt weithredu mesurau iaith Gymraeg a chefnogir hyn gan wybodaeth gyffredinol a chanllawiau ar sensitifrwydd ieithyddol i'r holl staff yn y cylchgrawn adrannol ac ar safle'r Fewnryd.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu cynllun gweithredu iaith Gymraeg ar draws y Comisiwn i barhau i ddatblygu ein gwasanaethau Cymraeg a sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun ym mhob maes gwaith y Comisiwn. Mae'n cael ei arwain a'i fonitro gan Swyddfa Cymru.

Byddwn yn parhau i anfon adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg bob blwyddyn (mewn ffurf gytunedig) yn nodi ein cynnydd yn erbyn ein cynllun ar gyfer gweithredu. Bydd hefyd yn cofnodi'r adborth a gawsom, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Bydd manylion am ein perfformiad yn erbyn y targedau a osodwyd yn cael eu cofnodi yn ein Hadroddiad Blynyddol i'r Senedd, ac yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.4. Monitro

Byddwn yn monitro cynnydd gyda'r cynllun hwn yn gyson a byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n asesu ein perfformiad o ran gweithredu'r cynllun. Os nad ydym wedi bodloni unrhyw un o'n hymrwymiaadau, byddwn yn esbonio pam ac yn nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i unioni pethau. Bydd ein dulliau monitro targedau Gwasanaeth Cwsmeriaid presennol yn cynnwys cydymffurfio â'r cynllun a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Pennaeth Swyddfa Cymru fydd yn gyfrifol, yn gyffredinol, am y gwaith o fonitro yn fewnol a yw'r Comisiwn yn cydymffurfio â'r cynllun, a'i gynnydd yn erbyn y cynllun. Caiff yr agweddau canlynol ar y cynllun eu monitro:

- Blaengynllunio a chaffael: bydd ymwybyddiaeth o'r goblygiadau o ran y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg yn ffurfio rhan annatod o flaengynllunio'r Comisiwn. Byddwn yn sicrhau fod polisiau, gweithdrefnau a chyhoeddiadau newydd yn cyd-fynd â darparu gwasanaethau dwyieithog ar sail gyfartal.
- Trefnu a darparu gwasanaethau: byddwn yn monitro'r trefniadau ar gyfer cyflwyno ein gwasanaethau yn Gymraeg, ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn, a hefyd pa mor dda rydym yn annog ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan bartion eraill.
- Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg: bydd yr amserau targed ar gyfer gohebiaeth Gymraeg yn parhau i fod yr un fath â'r targedau ar gyfer gohebiaeth Saesneg; bydd ansawdd y gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, ac effeithiolrwydd cyfleusterau dwyieithog mewn cyfarfodydd yn cael eu monitro pan gânt eu defnyddio.
- Wyneb cyhoeddus y sefydliad: bydd delwedd gorfforaethol y Comisiwn yn cael ei monitro, gan gynnwys defnyddio cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunyddiau cyhoeddedig dwyieithog eraill.
- Staffio: bydd gweithredu'r mesurau staffio a hyfforddi a amlinellir yn y cynllun yn cael ei fonitro.
- Asiantau a chontractwyr: bydd y modd y caiff gwasanaethau eu darparu a'u gweinyddu gan ein hasiantau a'n contractwyr yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion iaith Gymraeg eu cytundebau neu eu trefniadau.
- Amserlen: byddwn yn monitro cyrhaeddiad yn erbyn yr amserlen a nodwyd yn Adran 7 y cynllun hwn.
- Cwynion: bydd nifer a natur y cwynion am wasanaeth Cymraeg y Comisiwn yn cael ei fonitro.

Bydd Pennaeth Swyddfa Cymru yn gyfrifol am weithredu a monitro'r cynllun, a bydd yn atebol i'n Cyfarwyddwr Gwasanaethau Elusennau a'n Cyfarwyddwr Polisi ac Effeithiolrwydd. Y prif gyswllt ar gyfer y cynllun fydd Pennaeth Swyddfa Cymru, 8fed Llawr, Tŷ Clarence, Clarence Place, Casnewydd, De Cymru NP19 7AA.

Bydd monitro'r cynllun yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus, a fydd hefyd yn ymestyn i'r rheiny sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ein rhan. Byddwn yn:

- cynnal arolygon barn yn achlysurol i geisio barn defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg am amrywiaeth ac ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg;
- delio ag unrhyw gwynion am y cynllun fel rhan o'n trefn gwyno gyffredinol;

- croesawu a chofnodi awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, ac yn hysbysu'r cyhoedd ynglŷn â sut y dylent leisio eu barn a sut y cânt eu trin;
- anfon adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn ffurf a gymeradwywyd ganddynt, sy'n disgrifio'r cynnydd tuag at weithredu'r mesurau yn y cynllun yn erbyn yr amserlen a'r safonau cymeradwy, ac sy'n dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau a gafwyd gan y cyhoedd.

Yn nhrydedd flwyddyn gweithredu'r cynllun, bydd y Comisiwn yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn ystyried perfformiad o ran gweithredu'r cynllun dros y tair blynedd. Er mwyn adolygu a diweddarau ei Gynllun Iaith Gymraeg ac felly derbyn sêl bendith ar gyfer y cyfnod gweithredu dilynol, bydd yr adroddiad hwn yn:

- rhoi trosolwg a dadansoddiad thematig o berfformiad a chydymffurfiaeth â'r cynllun dros y tair blynedd, o ran cyflwyno gwasanaeth a rheoli'r cynllun; ac
- amlinellu prif flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y tair blynedd ddilynol, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y cynllun.

Mae nifer o'r mesurau hyn (er enghraifft trefn gwyno addas) eisoes yn weithredol. Bydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod yr unigolion cyfrifol yn gweithredu'r mesurau monitro sy'n weddill. Yn ogystal, bydd data yn cael ei gadw gan feysydd swyddogaethol priodol y Comisiwn ar lefel y galw am wasanaethau Cymraeg, y swm a wariwyd ar gyfieithu, a'r cwynion a dderbyniwyd am wasanaethau i gwsmeriaid Cymraeg, a bydd hyn yn ffurfio'r sail ar gyfer adroddiadau rheolaidd i Swyddfa Cymru.

6.5. Gwasanaethau a Ddarperir ar ran y Comisiwn gan Bartïon eraill

Os oes contract gennym gyda phobl eraill i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn gofyn iddynt gydymffurfio â'r cynllun hwn. Bydd copïau o'r cynllun a manylion monitro telerau'r contract yn cael eu rhoi i bob darparwr gwasanaeth.

6.6. Cwynion

Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i adlewyrchu amrywiaeth yn ein holl waith gyda'n cwsmeriaid. Dymunwn sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau yn hygyrch ac yn berthnasol i bob un o'n cwsmeriaid waeth beth fo'u cefndir neu brofiadau unigol. Mae hawl gan bob un o'n cwsmeriaid gael safon wasanaeth deg a chyson.

Diffiniad y Comisiwn o gwyn yw "mynegiant o anffodlonrwydd am safonau gwasanaeth, gweithredu neu ddiffyg gweithredu, gan y Comisiwn neu ei staff, y mae cwsmer unigol neu grŵp o gwsmeriaid yn hawlio sydd wedi effeithio arno, arni neu arnynt."

Mae cwynion am y gwasanaeth Cymraeg a methu â gweithredu'r cynllun yn ffurfio rhan o drefn gwyno'r Comisiwn.

Mae sensitifrwydd i anghenion penodol ein cwsmeriaid wedi'i gynnwys yn y drefn Cwynion ac Adborth Cwsmeriaid newydd:

- byddwn yn teilwra ein hymagweddau at gwsmeriaid a, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn ymateb mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu hamrywiaeth a'u diwylliant ac yn ystyried unrhyw anghenion arbennig sydd ganddynt;

- byddwn yn cynnig amryw o sianeli i'n cwsmeriaid allu gohebu â ni, gan gynnwys gohebiaeth ysgrifenedig, e-bost, ffôn a Typetalk/Textbox;
- gallwn ddarparu'r gweithdrefnau mewn sawl fformat gan gynnwys Braille, print bras neu fformat sain;
- darparwn fersiwn Cymraeg; a
- byddwn yn ceisio cyngor arbenigol i gefnogi ein hymatebion os oes angen.

Mae tri cham i'n trefn gwyno sy'n ceisio datrys cwynion yn y cam cynharaf posibl.

- Cam Un - Datrys yn Lleol lle mae swyddog o'r timau busnes gwreiddiol - un sy'n uwch na'r gweithiwr achos gwreiddiol, ac sydd heb ymwneud â'r cais o'r blaen - yn ymchwilio i'r cwynion.
- Cam Dau - Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid lle mae aelod o dîm trin cwynion hyd braich y Comisiwn yn ymchwilio i'r gŵyn.
- Allanol - Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol lle mae ymchwiliwr cwynion allanol yn adolygu safon weinyddu'r Comisiwn.

Gan fod y mwyafrif o'r ymholiadau Cymraeg yn cael eu cyfeirio at Swyddfa Cymru, yn gyffredinol bydd cwynion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Cymraeg a methu â gweithredu'r cynllun yn cael eu trin gan Swyddfa Cymru. Mae cwynion o'r fath yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar wahân a bydd unrhyw faterion o bwys ar faterion Cymraeg yn cael eu rhannu â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Os yw'r achwynydd yn anfodlon o hyd, bydd Gwasanaeth Cwsmeriaid yn penderfynu a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safon wasanaeth a dderbyniwyd neu ganlyniad gwaith achos y Comisiwn. Mae cwynion ym mhob un o'r categorïau hyn yn cael eu trin trwy weithdrefnau gwahanol.

Bydd gwybodaeth safonedig am gwynion yn cael eu hadrodd i bob tîm busnes perthnasol ar ddiwedd bob chwarter a bydd adroddiad mwy manwl yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Dylid cyfeirio cwynion i'n cyfeiriad derbyn canolog:

Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, Blwch SP 1227, Lerpwl L69 3UG.

6.7. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun

Yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun ymysg ein gweithwyr ein hunain, bydd y Comisiwn yn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun i gychwyn trwy ein gwefan, a thrwy ddatganiad i'r wasg gan dargedu'r cyfryngau Cymraeg. Anfonir copïau trwy'r e-bost hefyd at ein prif randdeiliaid yng Nghymru. Ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, bydd ein gwefan a'n holl gyhoeddiadau yn cynnwys neges sy'n hysbysu darllenwyr bod y cynllun yn bodoli, yr hyn sydd dan sylw yn fras yn y cynllun, ble y gallant weld copi o'r cynllun a phwy i gysylltu ag ef neu hi ynglŷn â'r cynllun.

7. Dangosyddion Iaith Gymraeg ac Amserlen ar gyfer gweithredu

Bydd amserlen y cynllun hwn yn cael ei gweithredu'n ffurfiol cyn pen tri mis o dderbyn sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd y cyfnod hwn yn rhoi cyfle i baratoi cyfarwyddiadau a gwybodaeth fewnol ar y cynllun, a'u dosbarthu i'r staff.

Er mwyn mesur perfformiad o dan y cynllun, byddwn yn adrodd ar y Dangosyddion Iaith Gymraeg canlynol fel rhan o'n hadroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg (Tabl 1).

Mae Tabl 2 yn amlinellu elfennau arbennig y cynllun i'w cyflawni erbyn dyddiad targed penodol. Byddwn yn adrodd ar berfformiad yn erbyn y targedau hyn bob blwyddyn fel rhan o'n hadroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

7.1. Tabl 1: Dangosyddion Iaith Gymraeg

Dangosyddion Iaith Gymraeg	Monitro	Cyfrifoldeb
Nifer y swyddi a hysbysebwyd lle y nodwyd bod y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol a'r nifer a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg.	Ar draws y Comisiwn	Is-adrannau gweithredol
Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithredu'r cynllun iaith a % y rhain a gafodd eu trin yn unol â safonau'r sefydliad	Ar draws y Comisiwn	Swyddfa Cymru
Nifer a % y galwadau ffôn a dderbyniwyd yn Gymraeg	Ar draws y Comisiwn	Ar draws y Comisiwn
Nifer a % yr e-byst a dderbyniwyd yn Gymraeg	Ar draws y Comisiwn	Comisiwn Elusennau Uniongyrchol a Swyddfa Cymru
Nifer a % y llythyrau a dderbyniwyd yn Gymraeg	Ar draws y Comisiwn	Comisiwn Elusennau Uniongyrchol a Swyddfa Cymru
Nifer y PDFs ar-lein a dderbyniwyd yn Gymraeg	Cofrestru a Gwybodaeth Elusennau	Cofrestru a Gwybodaeth Elusennau
Nifer a % yr achosion a gafodd eu trin yn Gymraeg neu'n ddwyieithog	Ar draws y Comisiwn	Swyddfa Cymru
Nifer a % y tudalennau ar y wefan Gymraeg a gafodd eu gweld	Cyhoeddiadau	Cyhoeddiadau
Nifer a % y Ceisiadau i Gofrestru a dderbyniwyd yn Gymraeg	Cofrestru	Cofrestru

7.2. Tabl 2: Amserlen ar gyfer gweithredu amcanion

Amcan	Cyfrifoldeb	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu
Cronfa ddata elusennau newydd	Is-adran Systemau Gwybodaeth	Gwanwyn/Haf 2010
Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	Swyddfa Cymru	Cyn pen 6 mis o gymeradwyo'r cynllun
Dosbarthu'r cynllun a chanllawiau i'r staff ac ar gael i'r cyhoedd	Uned Gyhoeddiadau	Cyn pen 3 mis o gymeradwyo'r cynllun
Monitro lefel sgiliau iaith staff drwy gyfrwng Strategaeth Sgiliau Iaith	Ar draws y Comisiwn	Parhaus
Rhyddhau cyhoeddiadau craidd yn Gymraeg ac yn Saesneg yr un pryd	Uned Gyhoeddiadau	Parhaus
Cynnal cyfleuster dwyieithog ar dudalennau craidd y wefan a sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn cynnwys darpariaeth ddwyieithog fel rhan o ystyriaethau'r fanyleb	Cyfathrebu Allanol	Parhaus
Datganiadau i'r wasg ac erthyglau yn Gymraeg i'r cyfryngau Cymraeg	Swyddfa Cymru a Swyddfa'r Wasg/Cyfathrebu Allanol	Parhaus
Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun iaith Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg	Swyddfa Cymru	Parhaus
Darparu dewis i elusennau cofrestredig ddiweddar eu dewis iaith	Gwybodaeth Gydymffurfio / Swyddfa Cymru	Cyn pen blwyddyn o gymeradwyo'r cynllun
Ymateb awtomatig 'allan o'r swyddfa' dwyieithog gan staff Swyddfa Cymru	Swyddfa Cymru	Cyn pen 3 mis o gymeradwyo'r cynllun
Canllawiau i staff ar ddelio â galwadau Cymraeg	Ar draws y Comisiwn	Cyn pen 6 mis o gymeradwyo'r cynllun
Gwella Ffurflen Flynyddol PDF ar-lein Gymraeg	Gwybodaeth Gydymffurfio a Swyddfa Cymru	Cyn pen blwyddyn o gymeradwyo'r cynllun
Cynnal arolwg barn i geisio barn defnyddwyr Cymraeg ar ein gwasanaethau Cymraeg	Swyddfa Cymru	Cyn pen blwyddyn o gymeradwyo'r cynllun
Darparu canllawiau i gontractwyr ynghylch gofynion y Cynllun Iaith lle rydym yn contractio gyda phobl arall i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, a chynnwys cyfeiriadau mewn contractau a chytundebau 3ydd parti sy'n sicrhau cydymffurfiaeth yn llawn â rhannau perthnasol y cynllun.	Caffael	Parhaus
Monitro gweithrediad y Cynllun a chyflawniad yr amserlen weithredu	Swyddfa Cymru	Bob chwarter

**Gallwch gael fersiynau print bras o'r
cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn
Elusennau ar 0845 300 0218**

Comisiwn Elusennau

Ffôn: **0845 300 0218**

Typetalk: **0845 300 0219**

Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**